



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Croeso nôl i'r ysgol - gobeithio y cawsoch hanner tymor da. Yn dilyn nifer uchel o achosion positif yn yr ysgol dros yr wythnosau diweddaraf gobeithiwn y bydd lefelau coronafeirws yn gostwng wrth i ni edrych ymlaen at y gwanwyn. Yn sgîl canllawiau cenedlaethol mi fyddwn yn addasu ein swigod yn ystod yr wythnos hon er mwyn creu swigod ehangach sy'n cynnwys dwy flwyddyn addysgol - swigen Bl 5 a 6, swigen Bl 3 a 4, swigen Bl 1 a 2, swigen y Derbyn a swigen y Meithrin.

Dydd Gŵyl Dewi Sant – mae croeso i bawb wisgo gwisg sy'n cyfleu Cymru i'r ysgol yfory.

Diwrnod y Llyfr – dydd Iau, Mawrth 3ydd – cyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg sy'n cyfleu cymeriad o unrhyw lyfr.

Clwb yr Urdd yn ail gychwyn ar nos Fercher, **Mawrth 16eg**, 3.30 – 4.30 ar gyfer Bl 2, 5 a 6

Mawrth 23ain – Bl 1, 3 a 4

Mawrth 30ain Bl 2, 5 a 6

Ebrill 6ed – Bl 1, 3 a 4

Eisteddfodau'r Urdd:

Eisteddfod Offerynnol – dydd Gwener, Mawrth 4ydd yn Theatr Felinfach **UNIGOLION yn unig** – Rydym yn aros am ragor o fanylion o safbwynt beth fydd yn digwydd i'r gerddorfa a'r ensemble – yn naturiol nid oedd modd ymarfer gyda'n gilydd cyn hanner tymor.

Rhagbrofion canu a llefaru unigol ar gyfer ysgolion cylch Aberystwyth – yn digwydd yn yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Plascrug ar ôl ysgol ar ddydd Gwener, Mawrth 11eg. Mi fydd y rhai sydd wedi cofrestru yn derbyn slot o 5 munud ar gyfer perfformio yn y rhagbrofion – yn sgîl cyfyngiadau covid 19 ni fydd cynulleidfa.

Eisteddfod Ddawns – Mawrth 22ain – unigolion am 4 o'r gloch yn Aberaeron. Rhagor o fanylion i ddilyn o safbwynt y grŵp aml gyfrwng a'r grŵp creadigol.

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – dydd Sadwrn, Mawrth 26ain ym Mhontrhydfendigaid – rhagor o fanylion i ddilyn.

Gwyliau'r Pasg – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg ar ddydd Iau, Ebrill 7fed ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 25ain

Symptomau – cofiwch na ddylech ddanfôn eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth

28/02/2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Welcome back to school – I hope you had a good half term. Following a high number of positive outbreaks at school over the last few weeks we hope that coronavirus levels will decrease as we look forward to spring. In line with national guidelines, we will be adjusting our bubbles this week to create larger bubbles covering two educational years - Year 5 and 6 bubble, Year 3 and 4 bubble, Year 1 and 2 bubble, Reception bubble and the Nursery bubble.

St David's Day - everyone is welcome to wear a costume that represents Wales to school tomorrow.

World Book Day - Thursday, March 3rd - a chance to come to school in a costume that conveys a character from any book.

Urdd Club resumes on Wednesday, **March 16th**, 3.30 - 4.30 for Years 2, 5 and 6

March 23rd - Years 1, 3 and 4

March 30th Years 2, 5 and 6

April 6th - Years 1, 3 and 4

Urdd Eisteddfodau:

Instrumental Eisteddfod - Friday, March 4th at Theatr Felinfach **INDIVIDUALS ONLY**. We are waiting for more details regarding the orchestra and the ensemble - naturally it was not possible to rehearse together before half term.

Singing and recitation prelims for Aberystwyth area schools - taking place after school at Ysgol Gymraeg and Plascrug on Friday, March 11th. Those who have already registered will be given a 5 minute slot to perform in the preliminary rounds - due to the restrictions of covid 19 there will be no audience.

Dance Eisteddfod - March 22nd - individuals at 4 o'clock in Aberaeron. More details to follow regarding the multimedia group and the creative group.

Ceredigion Regional Urdd Eisteddfod - Saturday, March 26th at Pontrhydfendigaid - more details to follow.

Easter Holidays - the school will close for the Easter holidays on Thursday, April 7th and re-open on Monday, April 25th

Symptoms – please remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher

28/02/2022